| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **1 Gorffennaf 2013** |
| **TEITL :** | **Cais am oddefeb gan y Cynghorydd Mike Stevens** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y cais** |

**Cefndir**

1. Mae'r Cynghorydd Mike Stevens, Cyngor Tref Tywyn, wedi cyflwyno cais am oddefeb i gymryd rhan mewn trafodaeth, yn y Cyngor Tref, ynglŷn â Siambr Twristiaeth a Masnach Tywyn. Mae'r cyngor yn rhoi grant yn flynyddol i'r Siambr, ond eleni mae am drafod y mater ymhellach cyn gwneud penderfyniad oherwydd datblygiadau o fewn y Siambr yn ystod y flwyddyn aeth heibio.

2. Mae'r Cynghorydd wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu oherwydd mae ef yw Cadeirydd y Siambr. Mae'n awyddus i fynychu'r cyfarfod er mwyn darparu gwybodaeth ac ateb cwestiynau'r cyngor tref. Mae wedi gofyn am yr hawl i siarad a phleidleisio. Bydd gwybodaeth gefndir bellach ar gael erbyn cyfarfod y Pwyllgor Safonau a chyflwynir ef i'r aelodau bryd hynny.

3. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol. Mae'r cynghorydd wedi nodi ei fod yn gofyn am y goddefeb o dan baragraff (f), sy'n darparu

*(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw;"*

Mae hefyd wedi nodi paragraff (d) - *"os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd"*

4. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad (Medi 2012) yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â goddefebau (tud.36):

*"Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol."*

**Argymhelliad**

5. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar gais y Cynghorydd Mike Stevens am oddefeb.